**Cynghorau Lleol yn gosod safonau newydd ar draws Cymru!**

Daeth Cynghorau Cymuned a Thref o bob rhan o Gymru at ei gilydd yn ddiweddar ar gyfer eu seremoni wobrau 2024 ar Faes y Sioe Amaethyddol, Llanfair ym Muallt, a noddwyd gan Utility Aid.

Roedd y seremoni wobrau flynyddol, a drefnwyd gan Un Llais Cymru <http://www.onevoicewales.org.uk/OVWWeb/Default.aspx> - y prif gorff cynrychioliadol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref - yn dathlu ac amlygu gwaith cynghorau lleol ar draws nifer o gategorïau strategol a gweithredol gwahanol.

Wrth agor y digwyddiad, talodd y Cynghorydd Mike Theodoulou, Cadeirydd Un Llais Cymru, deyrnged i gyflawniadau cymaint o Gynghorau sy'n darparu gwasanaethau llawr gwlad ynghanol eu cymunedau. Soniodd hefyd am y newid diwylliannol sy'n effeithio'r sector Cynghorau Cymuned a Thref yn deillio o heriau wrth i newid hinsawdd, yr argyfwng costau byw a phwysau wedi Covid ddechrau cydio.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at ddatganoli grymoedd a chyfrifoldebau i *ac* oddi fewn i Gymru. Mae heriau mawr o'n blaenau, a bydd y gwobrau yn helpu lledu'r gair.

Manylodd Prif Weithredwr Llais Cymru ar yr heriau a'r cyflawniadau hyn yn ei brif araith. Diolchodd i Gynghorau am gymryd rhan yn y digwyddiad, a chanmolodd eu hymrwymiad i rannu arfer da.

Bydd yn gyfnod hefyd o gyflawni ac o newid i Un Llais Cymru ei hun, meddai Lyn wrth yr ystafell lawn. Lefelau aelodaeth uwch nac erioed o'r blaen, trefniadau partneriaeth yn tyfu ac ymrwymiad gwirioneddol i ddarparu atebion cynaliadwy a digidol.

Bydd rhaglen gynhwysfawr o gyfleoedd hyfforddiant yn helpu cynghorau lleol i ddod o hyd i'w ffordd trwy fyd sy'n newid yn gyflym, a phwysodd Lyn ar Gynghorwyr i fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad a gynigir gan Un Llais Cymru.

Roedd staff pwrpasol ar gael i helpu Un Llais Cymru i gynghori'r sector a chynorthwyo gyda datblygu polisi a llywodraethiant. Mae'r mudiad yn adeiladu'r capasiti i gefnogi uchelgeisiau ei 670 aelod gyngor. Roedd bioamrywiaeth a chynaliadwyedd ar ben yr agenda. Bydd gwefan newydd yn cael ei datblygu. Bydd iechyd democrataidd y genedl yn cael blaenoriaeth. Bydd dulliau cyfathrebu digidol newydd yn mynd â'r mudiad – a'r sector Cynghorau Cymuned a Thref – ymlaen. Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau, cyhoeddodd Lyn.

Cymerodd Lyn gwestiynau ar draws nifer o feysydd – pwysigrwydd hyfforddiant, pryderon ynghylch bwlïo & aflonyddu, anabledd, cydraddoldeb a thrafodaeth am logo Un Llais Cymru hyd yn oed!

Ond roedd y diwrnod yn fwy na llongyfarch ein gilydd a hunanasesu. Roedd gwaith i'w wneud. Cymerodd y cynrychiolwyr ran mewn cyfres o Sesiynau Arfer Arloesol, a drefnwyd gan staff Un Llais Cymru, oedd yn adnabod a rhannu Arfer Gorau mewn meysydd megis prosiectau amgylcheddol, ymgysylltu cymunedol, ymgysylltu â phobl ifanc a chynlluniau costau byw.

Roedd gweithdy ar dwristiaeth a threftadaeth yn nodweddiadol o'r rhannu gwybodaeth a ddigwyddodd trwy gydol y diwrnod prysur hwn. Gwrandawodd y cynrychiolwyr yn astud wrth i gydweithwyr o Flaenafon, Cricieth a Thregaron ddisgrifio casgliad cyffrous a lliwgar o fentrau twristiaeth a threftadaeth. Roedd y sesiwn yn ficrocosm o fywyd Cynghorau Cymuned a Thref, gan amlygu gwaith gwych cynghorau lleol ar draws cymunedau trefol, arfordirol, a gwledig, o gadarnleoedd y Gymraeg i gymoedd diwydiannol y De. Bydd pob Cyngor yn gadael gwaddol i genedlaethau'r dyfodol. Roedd y gweithdy yn dangos ac yn nodweddu sut mae Cymru gyfan yn elwa o waith Cynghorau Cymuned a Thref.

Ond roedd llygaid pawb ar y gwobrau, ac roedd sesiwn y prynhawn yn gyfle i gyhoeddi'r enillwyr. Roedd y nifer uchaf erioed o gynigion yn golygu fod gan y beirniaid ddigon i'w wneud, ond yn y pendraw cafodd y tlysau eu rhannu. Dyma'r rhestr lawn o enillwyr. Cafodd y manylion eu rhannu ar draws y cyfryngau cymdeithasol yn barod.

1. Adroddiad Blynyddol Gorau
   Cyngor Cymuned Pontypŵl

2. Prosiect Amgylcheddol Gorau
   Cyngor Tref Cricieth

3. Defnydd Gorau o Adnoddau Digidol
   Cyngor Tref Y Fenni

4. Menter Ymgysylltu Cymunedol Orau
   Cyngor Tref Blaenafon a Chyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn (Cyd Enillwyr)

5. Menter Dwristiaeth Orau
   Cyngor Tref Cricieth

6. Menter Gynaliadwyedd Orau
   Cyngor Tref Llanandras a Norton

7. Ymgysylltu Ieuenctid Gorau
   Cyngor Cymuned Llanelli

8. Menter Dreftadaeth Orau
   Cyngor Tref Blaenafon

9. Prosiect Datganoli Gwasanaeth neu Ased Gorau
   Cyngor Tref San Clêr

10. Menter Gymunedol Orau gan gynnwys Cynlluniau Costau Byw
    Cyngor Cymuned Cwmbrân

11. Menter Iechyd Democrataidd Orau
    Cyngor Tref Llanelli

12. Gwasanaeth Cyngor Lleol Gorau y Flwyddyn Caerwyn Roberts
Cyngor Tref Cricieth

Bu'n ddathliad o fywydau cynghorau lleol. Dathliad o bobl a chymunedau Cymru.

Daeth y Cynghorydd Theodoulou â'r digwyddiad i ben, gan ddisgrifio diwrnod arbennig. Ond cyflwynodd her. Mae disgwyliadau cymdeithas yn tyfu fwyfwy, mae lefel craffu'r cyhoedd yn uwch nac erioed. Anogodd y cynrychiolwyr i fynd yn ôl i'w cymunedau a rhannu eu profiadau. "Siaradwch â'r bobl" meddai. Rhaid i lais Cynghorau Cymuned a Thref fod yn gryf, gan fod llawer o waith i'w wneud.

Diwrnod a hanner.


David Collins

Swyddog Datblygu Arfer Llywodraethu a Pholisi / Governance and Policy Practice Development Officer

Un Llais Cymru / One Voice Wales


***X (Twitter gynt)***: *@onevoicewales*

***Facebook***: *OneVoiceWalesUnLlaisCymru*

***LinkedIn:*** *One Voice Wales Un Llais Cymru*

***YouTube***: *One Voice Wales Un Llais Cymru*